Cyngor Cymuned
EGLWYS BACH
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 06-10-20 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Wendy Williams, Geraint Owen, John Lloyd Williams, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Arthur Williams a Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (08/09/20).

   Cynigwyd cofnodion 08/09/20 yn gywir gan Cyng Ceri ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Swydd Wag ar y Cyngor:**

     Trafodwyd y swydd wag. Hysbyseb i'w roi i fyny ar safle we y Cyngor, Facebook y Cyngor ac ar hysbyfyrddau y pentref yn gofyn i unrhyw berson yrru e-bost at y clerc i ddatgan diddordeb erbyn 31/10/20.

   - **Asesiad Risg:**

     Trafodwyd yr asesiad risg a cafwyd ei addasu fel bo angen.

   - **Baw Ci:**

     Y Clerc wedi cysylltu gyda CBSC ac wedi gofyn am arwyddion mwy yn y cae chwarae yn dangos y dirwyon yn glir.

Cyng Austin yn cymuno a'r cyfarfod am 7.46pm

- **Llwybrau:**

  Dywedodd Cyng Austin bod adran gyfreithiol CBSC yn edrych i mewn i'r peth. Angen mapiau.

- **Llwybyr Bryn Hir – Llifogydd:**

  Rhannodd Cyng Wendy lyniau o'r llwybyr. CBSC wedi torri coed ar yr afon wrth ty Menna Charlton. Cyng Austin yn dweud eu bod wedi cychwyn torri ond heb gario y brigau i ffwrdd. Cyng Austin am gysylltu . Darnau o'r llwybyr wedi disgyn, angen mynd i wely'r afon i weld os ydy o yn saff. Methu ar hyn o bryd oherwydd lefel y dwr. Cyng Wendy i e-bostio y llyniau i Cyng Austin. Cafwyd trafodaeth am feiciau modur yn defnyddio'r llwybyr.

- **Coeden yn y Fynwent:**

  Cyng John Lloyd wedi cael pris gan Keith Webber, £60 am dorri'r goeden a clirio'r pren. Y cynghorwyr i gyd yn hapus gyda'r pris.

- **Awdit 2018/19:**

  Materion a godwyd:
  • Cyfrifon nad ydynt wedi'u hardystio yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru);
  • Asesu Risg – asesiad risg mewn lle.
  • Cysoniadau Banc – y Clerc i ddangos copïau o'r datganiadau banc yn bob yn ail cyfarfod er gwybodaeth.
  • Cymeradwyo'r ffurflen flynyddol – ni wnaed hyn eto.

6. **CYNLLUNIO**

Cyfeirnod: 0/47674
Ymgeisydd: Mr Andrew Swinnerton
Cynllun: Codi adeilad storio 9 metr x 8 metr o bren i storio cyfarpar amaethyddol sy'n gysylltiedig â gofalu am dir yr eiddo ym Mhlas Iwrwg
Safle: Plas Iwrwg, Plas Iwrwg Road, Maenan, Llanrwst LL26 0YN

Dim gwrthwynebiadau.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £4,313.16 (angen talu £36.00 Neuadd Aberconwy)
Angladdau - £375.20
Cadw - £2,078.11

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Archwilio Cymru (ffi awdit 18/19) - £276.55

**Angladdau:**

- Arwel Williams (torri glaswellt) – £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC - Dweud eich dweud ar gynlluniau ar gyfer canol tref Bae Colwyn;**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Citizens Advice – Hysbysiad Cyfarfod Blynyddol Conwy 2020;**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cynrychiolydd CC a T;**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Coffa;**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC - Ffordd Ty Gwyn, Ffordd Eglwysbach & Ffordd Cae Forys: Rheolaeth Dros Dro ar Drafnidiaeth;**

  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Fan y Post Brenhinol – mae'r Clerc wedi siarad â'r Post Brenhinol ynglŷn â gwasanaeth y fan. Mae'r Post Brenhinol yn fodlon i'r gwasanaeth hwn barhau yn yr hinsawdd bresennol hon. Bydd angen trafodaeth bellach yn y tymor hir.

- Bagiau Ailgylchu Trydan pinc yn dal i fod allan ar Ffordd Gyffylog ers dechrau mis Medi. Nid yw Crest wedi'u codi. Cyng Wendy i gysylltu ag ERF i wneud cwyn. Cyng Austin i gysylltu

- Angen bin sbwriel mwy yn y Cae Chwarae – Cyng Austin i gysylltu â'r adran ailgylchu i ofyn am bin mwy;

- Gofynnodd Cyng Ceri a ellid rhoi agenda'r Cyngor ar wefan y Cyngor a Facebook wythnos cyn y cyfarfod er gwybodaeth. Y Cynghorydd Ceri i roi hysbysiad i ofyn i aelodau'r cyhoedd anfon unrhyw eitemau at y Clerc bythefnos cyn y cyfarfod. Agenda i'w rhoi ar wefan y Cyngor wythnos ynghynt.

- Coed Heol Fynnon Asa – gofynnodd Cyng Ceri a oedd unrhyw ddiweddariad. Dywedodd Cyng Austin fod archebion cadw coed ar y coed. Ystad Bodnant yw'r tirfeddiannwr. Y Clerc i ysgrifennu at Ystâd Bodnant ynghylch pryder am y coed a gofyn am y TPOs. A allai Ystâd Bodnant wneud cais i'r cyngor i'w torri'n ôl.

- Gatiau yn yr afon sy'n eiddo i berchennog y tir Richard Wiliams nid CBSC. Nid yw CBSC wedi parhau â'r bwriad i godi'r gatiau. Byddai'n rhaid i Mr Williams godi'r gatiau. Cyng Austin i gysylltu â CBSC ynghylch hongian y gatiau a'r cyfleuster i godi'r gatiau.

- Derbyniwyd e-bost gan ERF ynghylch y sgip ynghyd â lluniau yn dangos llawer iawn o sbwriel ar y llawr a oedd wedi'i adael cyn i'r sgip gyrraedd. Rhaid rhoi'r sbwriel yn y sgip ac ni ddylid ei adael wrth y sgip. Ni fydd ERF yn cynnig sgip yn y dyfodol os bydd eitemau yn cael ei gadael ar y llawr o gwmpas y sgip. Hysbysiad atgoffa i'w roi ar Facebook y Cyngor y tro nesaf cyn y disgwylir y sgip.

- Y Clerc i gysylltu ag ERF ynghylch y rampiau sy'n erydu yn y cae chwarae. Cyhoeddir adroddiad yn fuan am ardaloedd chwarae yn y Sir. Cyng Austin i gysylltu â'r arolygydd i ddod allan a chynghori'r hyn y gellir ei wneud a dod o hyd i weithwyr. Byddai'r Cyngor Cymuned yn talu am y gwaith.

- Gadawyd bagiau sbwriel ar ochr y ffordd rhwng Topan Bach a Rhandir. Cafwyd ymateb gan ERF i ddweud yr ymdriniwyd â'r mater ond roedd y bagiau yno o hyd. Dywedodd Cyng Austin ei fod wedi mynd ar hyd y ffordd y diwrnod hwnnw a bod y bagiau wedi mynd.

- Mae'r drws rhwng y fynwent a Cilgerran wedi mynd yn disgyn ac mae angen ei beintio. Cynigiodd Cyng John Lloyd drwsio a phaentio'r drws. Diolchodd y Cynghorwyr iddo.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

03/11/20
01/12/20
05/01/21
02/02/21
02/03/21
06/04/21
04/05/21
01/06/20
06/07/21
07/09/21
05/10/21
02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 o'r gloch.